**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 21 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

# ADRODDIAD INTERIM DRAFFT AR YR ADOLYGIAD PUM MLYNEDD O GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

## Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar Adroddiad Interim drafft yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn datgan y dylai'r pwyllgorau pwnc adolygu'n rheolaidd sut y cyflawnir dyletswyddau cyhoeddus yn eu meysydd gan gyrff cyhoeddus. Ar ôl derbyn fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim a sylwadau'r Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn mynegi barn ar brif gasgliadau'r Adroddiad. Byddant yn penderfynu a ddylai'r Arolwg symud ymlaen i'r ail gam, ac ddylid newid y Cylch Gorchwyl.

## Argymhelliad

***2.*** Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar gasgliadau'r Adroddiad Interim drafft yn Atodiad A, ac a oes angen diwygio'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr ail gam (Adroddiad Interim – Atodiad 1).

## Cefndir

***3.*** Cafodd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ei gomisiynu'n ffurfiol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Medi, yn dilyn ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gorchwyl. Caiff yr Adolygiad ei gynnal gan Ian Thomas, aelod o staff y Cynulliad, ac mae ei Adroddiad Interim yn cwmpasu cam cyntaf yr Arolwg. Mae'n ateb y cwestiwn canlynol:

> "Yn sgîl dyletswyddau statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ei gylch gwaith yng Nghymru a'r DU, ac amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oes angen i

Gyngor Cefn Gwlad Cymru barhau i ymgymryd â'u holl swyddogaethau, ac os felly, ai'r fframwaith drefniadol bresennol yw'r un mwyaf priodol?"

.4. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod drafft yr arolygydd cyn y caiff fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim ei gyflwyno i'r Gweinidogion ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar fin ceisio recriwtio Prif Weithredwr newydd yn dilyn ymddeoliad Paul Loveluck yn nes ymlaen eleni, ond yn aros am ganlyniad yr Adroddiad Interim yn gyntaf. Rydym yn gobeithio y bydd y broses o ystyried yr adroddiad wedi'i chwblhau erbyn y Pasg. Bydd rhan nesaf yr Arolwg yn edrych ar effeithiolrwydd strategol y Cyngor a'i reolaeth gorfforaethol.

**Yr Adroddiad Interim**

5. Mae'r Adroddiad Interim drafft yn Atodiad A. Mae'n sôn am gasgliadau'r adolygydd yn dilyn ymgynghori eang â'r rhanddeiliaid a'r partneriaid, yn ogystal â'r Cyngor ei hun. Mae'r crynodeb gweithredol (pp 2-5) yn disgrifio casgliadau'r Adroddiad. Y prif gasgliad yw bod angen i Gyngor Cefn Gwlad Cymru barhau i ymgymryd yn eang â'r swyddogaethau presennol. Mae'r Adroddiad yn awgrymu nifer o faterion ar gyfer ail ran yr adolygiad, gan gynnwys archwilio ffyrdd eraill o gynnal rhai gweithgareddau penodol. Mae'r Adroddiad yn edrych ar y berthynas weithiol rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan nodi bod yr adolygiad o'r Asiantaeth, a arweinir gan DETR, yn parhau.

**Cydymffurfiaeth**

6. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar yr Adolygiad Pum Mlynedd. Yn ogystal â'i gyfranogiad yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd ag Awdurdod Datblygu Cymru ar bob mater o bwys.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

***7.*** Gofynnir i'r Pwyllgor fynegi barn ar yr Adroddiad Interim drafft, ac ar y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad.

**Cyswllt**

***8.*** Yr Is-adran Cynllunio Ariannol